Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Ein Strategaeth **2024-2034**



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
**Y LOTERI GENEDLAETHOL**
**THE NATIONAL LOTTERY®**

# Cyflwyniad

*Gan ein Cadeirydd a'n Prif Weithredwr,*

Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi dangos sut mae newid, annisgwyl yn aml, yn rhan fawr o'n bywyd a sut mae'n rhaid inni addasu ac ad-drefnu ein blaenoriaethau.

Felly, fframwaith yw'r Strategaeth yn hytrach nag un cyhoeddiad a fydd yn aros yn ddigyfnewid. Bydd yn ymateb i'r newidiadau a fydd yn digwydd – y rhai rydym yn rhagweld a'r rhai annisgwyl.

Yn y Strategaeth, rydym wedi nodi ymrwymiadau i'r tymor byr a rhai i'r tymor hir ar ôl inni osod y sylfeini sydd eu hangen a phan fyddant o'r budd mwyaf.

Byddwn yn adolygu'r Strategaeth drwy gydol ei chyfnod. Byddwn yn adrodd am ba mor effeithiol ydyw a rhoi blaenoriaeth i rai tasgau i sicrhau ein bod ar y llwybr cywir i gyflawni ein hamcanion a'n cenhadaeth.

**Maggie Russell**, *Cadeirydd*
**Dafydd Rhys**, *Prif Weithredwr*



**Ymarfer OLION,** *Frân Wen*
**Mona Digital,** *Ffotograffiaeth*



# Ein **Gweledigaeth**

**Mae'r celfyddydau yn rhan o fywyd beunyddiol pobl Cymru. Maent yn ein cysylltu â'n gilydd, yn rhan annatod o'n lles ac yn ein hysbrydoli am genedlaethau i ddod.**

**Jukebox Collective x Bleak Fabulous**
**Clementine Schneiderman,** *Ffotograffydd*
**Charlotte James,** *Cyfeiriad Creadigol*

# Ein **Cenhadaeth**

Swyddogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru yw creu sefyllfa lle gall gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymarfer yn y celfyddydau ffynnu a lle gall pawb ymgysylltu â'r celfyddydau. Rydym am weld Cymru o uchelgais a thegwch sy'n creu celfyddydau cyffrous, yn rhan annatod o'n hiechyd a'n lles ac yn berthnasol i bob cymuned. Bydd ein lleisiau'n ysbrydoli'r byd a byddwn yn cael ein hysbrydoli gan y byd o'n cwmpas.

# Ein **Gwerthoedd**

**Uchelgais** – sicrhau bod y celfyddydau rydym yn eu hariannu yn diwallu anghenion a chwrdd â dyheadau'r Gymru gyfoes gan esgor ar bethau gwych ar bob lefel, yn lleol a byd-eang.

**Parch** – trin pawb (cleientiaid, rhanddeiliaid, gweithwyr, y sector creadigol a'r cyhoedd) ag urddas gan eu gwerthfawrogi, ni waeth beth yw eu cefndir, eu statws, eu hoed neu eu credoau a chydnabod eu cyfraniad unigryw at y celfyddydau a diwylliant, yn lleol a byd-eang.

**Cyfrifoldeb** – gweithio'n foesegol a thryloyw, bod yn atebol am ein penderfyniadau a'u canlyniadau, gwerthuso a dysgu o'n gwaith i greu canlyniadau da a meithrin diwylliant o ymddiried a gwell cyfleoedd i bawb.



**Ainadamar**, *WNO*
**Johan Persson**, *Ffotograffydd*

# Ein **Hegwyddorion**

Mae ein Strategaeth yn nodi ein blaenoriaethau dros y deng mlynedd nesaf i gryfhau a datblygu ein gwerth diwylliannol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Y chwe egwyddor o Adolygiad Buddsoddi 2023 sy'n llunio'r fframwaith strategol. Y chwe egwyddor hefyd yw ein **Hamcanion Llesiant** gyda **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** yn sail iddynt. Maent hefyd yn cyd-fynd â Rhaglen Lywodraethu ac ymrwymiadau Llywodraeth Cymru yn y drafft o'i Strategaeth Ddiwylliant.

Gan ddefnyddio'r chwe egwyddor, byddwn yn dathlu, datblygu a chefnogi dyfodol ein celfyddydau ac yn gosod tegwch, amrywiaeth, cynhwysiant, cyfiawnder cymdeithasol a chynaliadwyedd wrth wraidd ein gwaith. Bydd ein hegwyddorion yn ein harwain ac yn fodd inni adrodd y stori am sut y gall y celfyddydau wneud gwahaniaeth.

# Creadigrwydd

1

Mae gan bob celfyddyd y grym i'n cysylltu â'n gilydd ac yn fodd inni ddeall ein gilydd a'r byd o'n cwmpas. Mae creadigrwydd yn herio a thanio ein dychymyg. Mae'n dod â llawenydd a gobaith i'n cynulleidfa a'n cyfranogwyr.

Mae creadigrwydd yn yr holl waith a'r holl bobl rydym yn eu cefnogi. Rydym am weld ystod eang o gelfyddydau, arloesi artistig o safon ac arferion creadigol sydd wedi'u datblygu gyda golwg ar y gynulleidfa a'r gymuned.



**Angharad Pearce Jones**, *Cerflunydd*
**Jon Pountney**, *Ffotograffydd*

# Cydraddoldeb ac Ymgysylltu

2

Mae gan bawb yr hawl i fwynhau ein diwylliant, ein hiaith, ein tirwedd a'n celf a chymryd rhan ynddynt.

Mae'n celfyddydau a'n diwylliant yn perthyn i bawb a rhaid iddynt adlewyrchu bywyd pob un ohonom.

Byddwn yn cael gwared ar y rhwystrau sydd i brofi'r celfyddydau. Byddwn yn sicrhau cynrychiolaeth lawn i bobl amrywiol yn ein gweithlu, yn arweinwyr, penderfynwyr, crewyr, ymwelwyr, cyfranogwyr ac aelodau o'r gynulleidfa.



**Steph Bailey-Scott**, *Actor, Gwneuthurwr theatr*
**Jon Pountney**, *Ffotograffydd*




**Sage Todz**, *Rapiwr*
**Jon Pountney**, *Ffotograffydd*

# Y Gymraeg

3

Ein nod yw i'r Gymraeg a'i diwylliant fod wrth wraidd ein creadigrwydd. Mae'r iaith yn perthyn i bawb ac yn fodd i ddathlu'r cysylltiad rhwng cymunedau.

Byddwn yn rhannu cyfleoedd sy'n cyfrannu at dwf yn nefnydd y Gymraeg a nifer y bobl sy'n ei pherchnogi. Byddwn yn cefnogi'r sector i osod y Gymraeg wrth wraidd ei greadigrwydd a'i gymunedau drwy wrando ar bobl a dysgu am yr angen. Byddwn yn cydweithio i ledu gwasanaethau a chyfleoedd creadigol Cymraeg.


# Cyfiawnder Hinsawdd

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo swyddogaeth bwysig y celfyddydau i drawsnewid ein cymdeithas a'n heconomi i ddatrys yr argyfwng hinsawdd a natur. Nid yr ôl-effeithiau amgylcheddol yn unig yw'r broblem gyda'r hinsawdd. Mae hefyd angen cyflawni cyfiawnder cymdeithasol a datrys anghydraddoldeb fel rhan o'r ateb.

Byddwn yn cefnogi'r sector i ysbrydoli pobl i weithio dros gyfiawnder hinsawdd a chreu sector sy'n amgylcheddol gynaliadwy ar sail cyfiawnder cymdeithasol.



**Rhys Slade-Jones**, *Bardd ac arlunydd*
**Jon Pountney**, *Photographer*



# Datblygu Talent

5

Byddwn yn sicrhau ein bod yn creu amgylchedd sy'n help artistiaid ffynnu.

Rhaid creu llwybrau i bobl o bob cefndir allu datblygu sgiliau, gyrfa gynaliadwy a’r gallu i arwain.

Gan gydweithio, byddwn yn sicrhau dosbarthu'n deg y cyfleoedd i artistiaid a chynnig gwaith teg a gwell canlyniadau i’n pobl, nawr ac yn y dyfodol.

**Connor Allen**, *Bardd*
**Jon Pountney**, *Ffotograffydd*

# Trawsnewid

6

Byddwn yn manteisio ar gyfleoedd newydd ac ymateb yn hyderus i'r holl newidiadau sy'n digwydd o'n cwmpas. Byddwn yn mentro, yn meithrin gwytnwch, yn ymateb i newid ac yn parhau i fod yn berthnasol i'n pobl a'n cymunedau. Rydym am gael y cyfleoedd gorau i'r celfyddydau, dysgu gwersi o'r gorffennol a rhannu beth sy'n gweithio orau.



**Krystal Jones**, *Perfformiwr*
**Jon Pountney**, *Ffotograffydd*

# Ein **Hamcanion**

## Datblygu

Datblygu a gwella gwybodaeth, dealltwriaeth ac arferion cynaliadwy ym maes y celfyddydau.

## Cysylltu

Cydweithio i wella'r cyfle i'n pobl brofi a mwynhau'r celfyddydau.

## Hyrwyddo

Cydweithio â phartneriaid i hyrwyddo Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.



**The Conjuror of Cwrtycadno,** *Taking Flight*
**Kirsten McTernan,** *Ffotograffydd*

Ein Siarter Frenhinol, ein gweledigaeth gelfyddydol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw'r sail i'n hamcanion a'n hymrwymiadau.

# Datblygu – ein hymrwymiadau:

**Blaenoriaethau**

Rydym yn gwybod nad oes modd inni wneud popeth ar unwaith. Felly byddwn yn canolbwyntio ar y pethau pwysig i'w gwneud yn gyntaf.

**Nodi**

Drwy ddefnyddio'r dystiolaeth sydd gennym a'n profiad, byddwn yn nodi lle y gallwn gael yr effaith fwyaf. Byddwn hefyd yn dysgu oddi wrth eraill a rhannu ein gwybodaeth â nhw.

**Gweithredu**

Byddwn yn gweithredu i sicrhau bod rhagor o bobl yn mwynhau profiadau celfyddydol o safon. Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn unigolion a sefydliadau i ddatblygu cynaliadwyedd y sector. Byddwn yn datblygu rhaglenni mewn partneriaeth ag eraill.

**Symleiddio**

Bydd ein ffordd o gyfathrebu â'r sector a'r cyhoedd yn gliriach. Rydym hefyd am i'n ffyrdd o ariannu fod yn fwy tryloyw a hygyrch.

**Datblygu Gyrfa**

Byddwn yn cydweithio i ddatblygu llwybrau gyrfa cynaliadwy yn y celfyddydau gan aros yn effro i anghenion cyfnewidiol ein hartistiaid a'r sector.



**Sherman Theatre & Fran Wen Theatre**, *Imrie*
**Mark Douet**, *Ffotograffydd*

# Cysylltu – ein hymrwymiadau:

### Gweithio Mewn Partneriaeth

Byddwn yn cydweithio i wireddu ein huchelgais yma ac yn y byd. Byddwn hefyd yn cydweithio y tu hwnt i sector y celfyddydau i wella ein cyrhaeddiad a'n heffaith.

### Cymuned

Byddwn yn grymuso cymunedau i lunio a llywio eu profiadau artistig i ddatblygu'r celfyddydau mewn cymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Rydym am sicrhau bod cyfleoedd i bobl Cymru brofi'r celfyddydau'n gyfranogwyr ac aelodau o'r gynulleidfa.

### Plant a Phobl Ifanc

Rydym eisiau rhagor o gyfleoedd i blant a phobl ifanc fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt. Byddwn yn sicrhau bod gan bobl ifanc - cenedlaethau'r dyfodol - lais yn ein trefniadau a'n penderfyniadau.

### Dysgu

Byddwn yn defnyddio offer i gael adborth a gwerthusiadau gan y gynulleidfa, y cyfranogwyr a'r artistiaid i lywio datblygiadau'r dyfodol a rhannu arferion da.



**Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru**
**Evan Dawson,** *Ffotograffydd*

# Hyrwyddo – ein hymrwymiadau:

**Partneriaethau**

Byddwn yn magu a chynnal cysylltiadau yma a thramor.

**Lles**

Byddwn yn hyrwyddo pwysigrwydd y celfyddydau i les ein pobl.

**Adnoddau**

Byddwn yn neilltuo adnoddau i godi proffil y sector.

**Dathlu**

Byddwn yn defnyddio straeon i rannu, hyrwyddo a dathlu'r celfyddydau.




**Alia Farid 'In Lieu of What Is',** *Artes Mundi 10*
**Polly Thomas**, *Ffotograffydd*

# Ein Hymrwymiadau **Strategol**

Rydym am i'n Strategaeth fod yn hyblyg er mwyn aros yn berthnasol i'n Cenhadaeth. Rydym wedi nodi wyth ymrwymiad strategol hirdymor i sicrhau model cynaliadwy a sefyllfa sy'n gefnogol a chyforiog yn ddiwylliannol i genedlaethau'r dyfodol.



**Gwyl Morlun,** *Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen*
**Graham Davies**, *Ffotograffydd*

**Meithrin** - Adnabod talent ddiwylliannol a chefnogi dilyniant drwy gyfleoedd a llwybrau.

**Cyfleoedd** - Datblygu prentisiaethau, secondiadau a llwybrau â mentora i'r sector ac i ni fel sefydliad.

**Rhwydweithio** - Cysylltu â gwahanol bartneriaid a chreu cysylltiadau newydd gan gynnwys y tu allan i'r sector a nodi cysylltwyr a hyrwyddwyr lleol, cenedlaethol a byd-eang.

**Cyflymder** - Sicrhau bod ein datblygiad a'n cymorth yn parhau'n briodol i'r sefyllfa gan wneud y mwyaf o'r cyfleoedd ac ymateb i alwadau.

**Cydgyfrifoldeb** - Creu sefyllfa sy'n annog unigolion a grwpiau i berchnogi eu gwaith cyhoeddus a mawrygu eraill ar yr un platfformau.

**Tegwch** - Gwneud cyfiawnder yn ganolog i'n gwaith a dymchwel rhwystrau iddo drwy fesurau a chymorth targedol.

**Gwerthuso** - Defnyddio gwerthusiadau a dysgu oddi wrth adborth gan y gynulleidfa i ysbrydoli a llywio datblygiad ac arfer da'r dyfodol.

**Gwaddol** - Dangos effaith hirdymor ein gwaith ni a gwaith y sector gan sicrhau cyfleoedd y dyfodol i ystyried hefyd y celfyddydau newydd sy'n dod i'r amlwg.

**Byddwn yn adolygu a diwygio'r Strategaeth a sut rydym yn cyflawni ein hymrwymiadau a mesur ei chynnydd drwy ein Cynlluniau Blynyddol.**

Mae rhagor o fanylion am ein gwaith pob blwyddyn yn ein **Cynllun Blynyddol**.

**Cyngor Celfyddydau Cymru**
Plas Bute
Caerdydd CF10 5AL

Mae gennym hefyd swyddfeydd ym **Mae Colwyn** a **Chaerfyrddin**.

Ffoniwch ni ar: **03301 242733** *(byddwch yn talu cyfraddau lleol yn unig).*

Rydym wedi ymrwymo i fod yn agored a hygyrch. I gysylltu â ni, defnyddiwch y ffurflen ar ein gwefan: **Cysylltwch â ni**

Mae'r ddogfen wedi dod rywbryd o'r wefan celf.cymru felly mae'n bosibl bod fersiwn ddiweddarach. Ewch i **Strategaeth** am y fersiwn ddiweddaraf a sut i gael y ddogfen mewn fformatau amgen.

**Clawr blaen:**
**Mission Control,** *Hijinx*
**Jonathan Dunn**, *Ffotograffydd*

**Es & Flo,** *Canolfan Mileniwm Cymru*
**Kirsten McTernan**, *Ffotograffydd*

**Jukebox Collective**
**Katja Mayer**, *Ffotograffydd*

**Dance Passion Swansea,** *BBC Arts a BBC Cymru*
**Jessica Cooper**, *Ffotograffydd*

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
**Y LOTERI GENEDLAETHOL**
**THE NATIONAL LOTTERY®**